# COFNODION CYFARFOD HWB GWYNEDD A MÔN 12/6/17

**Yn bresennol – MJ, ALD, HH, MD, JR, GE, CM, SR, HJ, FH, GMR, BD, GH, DW, MA, BA, RB, IJ, LW**

1. Croeso i bawb a diolch am gynrychiolaeth y mwyafrif o ysgolion Gwynedd, a phob ysgol o Fôn. Trafodaeth gyffredinol ar gynnwys y dydd.
2. Sesiwn y bore – rhoddodd bawb adborth o waith Uned 1.
   - Roedd cyfle i drafod unrhyw bryder, rhannu syniadau ac adnoddau perthnasol i'r uned.
   - MJ – rhannu taflen technegau cwestiynau.
   - MJ – atgoffa o dechneg cwestiwn gwerthuso – animeiddiad ar wefan Eduqas (Digital Resources – KS4 RS – Analysis and evaluation. Answering questions animation).
   - MJ – rhannu taflenni CBAC – dewis Ast.Crefyddol fel pwnc TGAU.
3. Trafod cynllun gweithredu posib yr Hwb ar gyfer 2017-18.
   - Cyfle i gyd-lunio profion/ffug arholiad.
   - Technegau i'r cwestiynau arholiad – rhannu arferion da.
   - Paratoi at Uned 2 – cychwyn yn gynt gan fo rhai ysgolion yn cychwyn dysgu TGAU yn fuan yn y flwyddyn.
4. UFA
   - MJ wedi gyrru cyflwyniad y Dyneiddiwr yn y Gymraeg.
   - MJ wedi gyrru copi o'r adnoddau/cyflwyniadau ychwanegol sydd wedi eu cyfieithu yn electronig. Diolch i GwE am gyfieithu rhai rhannau o'r cwrs.
   - Bydd yr holl adnoddau ar gael ar safwe GWE fis Medi – yn ddwyieithog.
   - MJ wedi rhoi cyflwyniad i GYSAG Cymru 7/7/17 am ein gwaith dros y flwyddyn. Roedd yr aelodau yn falch iawn o'r gwaith sydd wedi ei wneud, ac yn ein llongyfarch. Rwy'n falch o ddweud ein bod ar y blaen o gymharu â siroedd eraill. MJ wedi manteisio ar y cyfle i fynegi ein pryderon - adnoddau TGAU gan CBAC yn hwyr. Gorfod paratoi deunyddiau ar gyfer y fanyleb newydd heb werslyfr penodol. Dydy hyn ddim yn deg. Athrawon cyfrwng Cymraeg yn gorfod cyfieithu'r holl adnoddau sy'n ategu at bwysau gwaith ychwanegol. Yn aml, mae gwerslyfrau cyfrwng Cymraeg yn cyrraedd ysgolion yn rhy hwyr.
   - Bydd MJ yn cyfarfod Lynda Maddock ac arweinwyr Ast.Crefyddol ar draws siroedd eraill yn Llandrindod, Fedi 13. Bydd adborth ar hyn yn ein cyfarfod nesaf.
   - MJ wedi mynegi pryder ein hwb parthed asesu a thechnegau arholiad. Gofynnwyd i Lynda Maddock pe byddai hyn yn cael sylw yn y cwrs CBAC. Mynegwyd pryder hefyd gan rai ysgolion o'r amser a ddyrennir i'r pwnc. Bydd cwrs CBAC o gwmpas Rhagfyr, 2017.
   - Bydd HwB Gwynedd yn cyfarfod Medi 29ain – cais gan y Sir i gynnal HMS yn seiliedig ar y TGAU Diwygiedig. Byddaf yn arwain y sesiwn hwn gyda chi. Criw Môn – 2 opsiwn – ymuno gyda chriw Gwynedd ar y diwrnod hwn, neu mae'n bosib i ni drefnu dyddiad arall. Byddaf mewn cysylltiad gychwyn y tymor.
   - Diolch!! Hoffwn ddiolch i GwE am y cynllun cefnogi ysgolion ar gyfer cyflwyno'r manylebau TGAU diwygiedig – mae wedi ein helpu i gefnogi athrawon Ast.Crefyddol a chynllunio i'r dyfodol. Ar ran athrawon Hwb Gwynedd a Môn, hoffwn ddymuno ymddeoliad hapus i Mr Pete Maddocks, Ymgynghorydd Her GwE, sydd wedi ein cefnogi 100% gydol y flwyddyn. Coeliwch chi fi, mae wedi gorfod delio efo lot o swnian ar fy rhan i!! Does dim wedi bod yn ormod o drafferth i'n cefnogi. Diolch hefyd am gefnogaeth CYSAG Gwynedd a Môn sydd wedi derbyn crynodeb o'n gwaith yn dymhorol. Diolch I Bethan James am ei chefnogaeth. Yn olaf, diolch i chi gyd am eich parodrwydd i gyd-weithio fel HWB ac am eich brwdfrydedd ac ymrwymiad parhaus! **Mwynhewch y gwyliau yn arw – digon o seibiant ac amser efo'r teulu! Mefys**